

Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru	
Dyddiad y Cyfarfod:	Iau, 6 Medi 2018
Amser y Cyfarfod:	9:00 – 16:00
Lleoliad y Cyfarfod:	Ystafelloedd Meirionnydd & Phenllyn, Swyddfeydd LIC, Cyffordd Llandudno
Cadeirydd	Andy Richardson

YN BRESENNOL:

<p>Llywodraeth Cymru:</p> <p>Keith Smyton (KS) Dave Morris (DM) David Lloyd-Thomas (DLT) Andrew Martin (AM) Suzanne Pomeroy (SP) Enfys Jones (EJ) Nicholas Shilton (NS) Dilys Parker (DP) Lara Israel (LI)</p> <p>Cyflwynwyr/Siaradwyr Gwadd;</p> <p>Mark Grant (MG)–Clwstwr Diodydd Linda Grant (LG) – Arloesi BIC Fintan O’Leary (FO) – Clwstwr Diodydd Ro Roberts (RR)- Cyfathrebu</p>	<p>Sefydliad:</p> <p>Andy Richardson (AR) – Cadeirydd FDWIB Alison Lea-Wilson (AW) – Aelod o’r Bwrdd Justine Fosh (JF) – Aelod o’r Bwrdd (Telegynadledda) Huw Thomas (HT) – Aelod o’r Bwrdd David Lloyd (DL) – Dirprwy Gadeirydd Norma Barry (NB) – Aelod o’r Bwrdd James Wilson (JW) – Aelod o’r Bwrdd Katie Palmer (KP) – Aelod o’r Bwrdd Marcus Sherreard (MS) – Aelod o’r Bwrdd</p>
<p>Ymddiheuriadau:</p> <p>Annitta Engel – Aelod o’r Bwrdd</p>	

Rh.	Eitemau’r Agenda
1.	<p>Croeso a Chyflwyniadau</p> <p>Croesawyd aelodau’r bwrdd i’r cyfarfod gan AR a nodwyd yr ymddiheuriadau. Cyflwynodd yr aelodau eu hunain a chroesawyd Ro Roberts, arbenigwr cyfathrebu.</p>
2.	<p>Cofnodion a Chamau Gweithredu’r Cyfarfod Blaenorol 07/06/2018 FDWIB (18) M14</p> <p>Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir.</p> <p>Rhoddodd NB wybod i’r Bwrdd bod ganddi wrthdaro buddiannau o bosibl oherwydd ei chysylltiadau â Bellyfull White Cider and Perry Society.</p>

Edrychwyd ar y Log Camau Gweithredu gan roi sylw arbennig i'r rheini oedd dal heb eu gwneud, wedi'u lliwio'n goch. Nododd y Bwrdd y sefyllfa ddiweddaraf o ran y camau sydd heb eu cymryd gan ofyn bod y log yn cael ei ddiweddarau yn unol â hynny.

Cam Gweithredu: LI i newid y Log Camau Gweithredu i gofnodi'r camau sydd wedi'u cymryd.

Cafwyd trafodaeth ehangach am y materion sy'n effeithio ar y diwydiant bwyd. Mynegodd **JW** bryderon ynghylch alinio'r Llywodraeth a'r diwydiant o ran y Strategaeth Bwyd Môr ac effaith Brexit.

Dywedodd **DLT** iddo siarad â'r tîm ystadegau a gofyn ai effaith cyfradd gyfnewid wannach Sterling / Ewro / Doler oedd sail y cynnydd yn allforion Cymru neu a oedd yn gynnydd go iawn. Nid oedd y tîm ystadegau'n gallu modelu'r cyfraddau cyfnewid gan eu bod yn newid bob dydd ac nid oes data am drafodion masnachu unigol. Fodd bynnag, roedd mesur procsi sy'n edrych ar faint allforion yn dangos y bu twf dros y cyfnod sy'n cefnogi'r casgliad bod allforion wedi tyfu yn eu maint yn ogystal ag yn eu gwerth.

Nododd **KP** nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymateb ffurfiol i'r Papur Brexit. Roedd yn poeni bod angen diweddarau'r drefn reoleiddio er mwyn gallu rheoli risgiau safonau is a methiannau gweithredu ar ôl Brexit.

Nododd **DLT** nad oedd is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i allu ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriad arall gan Lywodraeth Cymru gan ei bod yn rhan o'r llywodraeth. Ond y tu ôl i'r llenni, mae cydweithio clos yn digwydd rhwng yr Is-adran Fwyd, yr Is-adran Iechyd Cyhoeddus ac FSA Cymru.

Goblygiadau Brexit i'r FSA. Cafwyd trafodaeth am effaith Brexit (yn sgil diffyg sgiliau a thoriadau) ar ddiogelwch bwyd. Os caiff lefel cymwysterau ei gostwng er mwyn cynyddu'r nifer y gellid eu cyflogi, nodwyd y câi hynny effaith bendant ar Ddiogelwch Bwyd a gallai yn y pen draw beryglu Diogelwch Bwyd.

Blas Cymru/Taste Wales

Cynhelir digwyddiad Blas Cymru/Taste Wales yn y Celtic Manor Resort Hotel ar 19-20 Mawrth. Mae angen mwy o gyhoeddusrwydd ar Blas Cymru a thrafodwyd y cynlluniau ar gyfer y digwyddiad.

Cytunwyd y dylai'r digwyddiad fod yn eitem ffurfiol ar agenda cyfarfod nesa'r Bwrdd ym mis Rhagfyr. Bydd gan holl aelodau'r Bwrdd ran i'w chwarae yn y digwyddiad.

	<p>Dosbarth Tuck in Trafodwyd llwyddiant Tuck In. Mae llawer o weithdai wedi'u cynnal ers cynnal y dosbarth yn y Gogledd. Cytunwyd cynnal dosbarth yn y De.</p> <p>Hunaniaeth FIWIB Nodwyd bod angen cynllun ynghylch sut i ymgysylltu â busnesau gan ddefnyddio hunaniaeth FDWIB yn hytrach na chyfeirio ato fel adain o'r Llywodraeth. Dylid ystyried y fecanwaith lywodraethu briodol.</p>
<p>3.</p>	<p>Dangosfwrdd Cyflawni</p> <p>Tynnodd DM sylw aelodau'r Bwrdd at y polisi ar Ladd-dai a'u hysbysu bod eu cydweithwyr yn LIC yn ystyried potensial grant newydd ar gyfer gosod CCTV mewn lladd-dai i ddiogelu lles anifeiliaid.</p> <p><i>Sylwadau'r Bwrdd am y Dangosfwrdd:</i></p> <p>JW: nid yw'r cyflwyniad am y dangosfwrdd yn glir iawn ac mae rhannau'n ddryslyd iawn. Cynigiodd JW bod y gosodiadau drafft yn cael eu newid.</p> <p>WG: dylid defnyddio codau lliw a symleiddio pethau.</p> <p>NB: dylai'r dangosfwrdd ddangos yn unig yr hyn y dylai'r Bwrdd fod yn gyfrifol amdano a beth mae'r bwrdd yn dewis ei wneud. Nid oes angen gwybod beth mae swyddogion LIC yn ei wneud. Dylai byrddau sectorol drafod â LIC a'r FDWIB.</p> <p>Mae angen penderfynu beth y dylid ymgynghori arno â'r bwrdd. Mae angen i LIC sicrhau nad oes mwy nag sydd ei angen o ymgynghori, dim ond digon i sicrhau bod y bwrdd yn cael digon o wybodaeth iddynt allu cadw'u bys ar byls datblygiadau</p>
<p>4.</p>	<p>Cynllun Gweithredu 2</p> <p>Dywedodd y Cadeirydd yn ei sylwadau agoriadol iddo gwrdd ag Aled Jones, Llywydd NFU Cymru. Mae llawer o dir cyffredin rhyngddynt o ran datblygu diwydiannau cynradd ac eilaidd mewn ffordd sy'n cryfhau cadwyni cyflenwi ac yn gweithio gyda brandiau cyffredin, gyda chynaliadwyedd a buddiannau ehangach yn themâu ac yn ganlyniadau craidd.</p> <p>Mae DLT wedi crynhoi'r prif bynciau a chwestiynau llosg ym mhapur y Bwrdd. Mae gwaith ymgynghori helaeth dros yr haf a ddaw i ben ym mis Medi yn awgrymu tair prif thema fras:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 'Helpu ein busnesau i dyfu' – cynlluniau tymor hir i ddatblygu busnesau cryfach a mwy, a chadwyni cyflenwi sydd â chysylltiadau gwell â chynhyrchwyr cynradd, gwella cynhyrchiant a llwybrau i'r farchnad. Rhaid gwneud hyn oll mewn ffordd gynaliadwy.

- ‘Hyrwyddo Cymru fel Cenedl Fwyd’ – codi proffil y sector, datblygu a dilyn set gref o werthoedd brand gydag USPs, gyda safonau cynhyrchu a systemau olrhain ym mhob rhan o’r gadwyn gyflenwi, a chysylltiadau â thwristiaeth.
- ‘Er lles ein pobl a chymdeithas’ – defnyddio grantiau a chymorth arall fel sbardun newid fel bod y sector yn cyflawni nodau lles ehangach.

Mae’r themâu yn datblygu’r syniadau a gyflwynwyd yng ngweithdy’r Bwrdd ym mis Mehefin gan eu hestyn a’u dyfnhau. Nododd y Bwrdd y canfyddiadau a chytuno ar y trywydd cyffredinol, y modd y carfennir pynciau a’r syniadau cychwynnol ar gyfer gweithredu. Roedd aelodau’r Bwrdd yn canmol safon y papur a’r gwaith oedd wedi’i wneud hyd yma. Cafwyd rhai sylwadau neilltuol:

- Mae angen ystyried pysgodfeydd fel rhan o’r gadwyn gyflenwi gan eu bod yn rhan o’r sector cynhyrchu cynradd. Mae’n bwysig canolbwyntio ar y nodau lles sy’n cael eu hannog trwy’r gadwyn gyflenwi.

Pwysigrwydd Enwau Gwarchodedig (PFNs) a sut y gallai Brexit effeithio arnyn nhw a’r angen i’r DU ystyried ei system PFN ei hun. Nododd yr aelodau hefyd ei bod yn bwysig datblygu a hyrwyddo natur unigryw bwyd o Gymru yn ogystal â gwerthoedd brand. Nododd y Bwrdd gynigion ar gyfer diffinio’r sector bwyd yn SIC a chytuno mabwysiadu’r gweithgareddau a restrir yn Atodiad 3, gan gynnwys y codau SIC ychwanegol yn Nhabl 2. Nododd y bwrdd bod angen modelu goblygiadau hyn i drosiant y sector.

Cytunodd y Bwrdd y dylid mabwysiadu’r rhestr KIPs gwyrdd a gynigir yn Atodiad 4. Bydd aelodau’r Bwrdd yn cynnig eu barn erbyn 21 Medi ynghylch a ddylid defnyddio’r KIPs melyn a choch yn Atodiad 4 hefyd.

Cytunodd aelodau’r Bwrdd i gynnig eu syniadau am y papur erbyn 21 Medi.

5. Y Diweddaraf am y Ffrydiau Gwaith

Pobl a Sgiliau

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith ar werthoedd, a bod angen nodi’r incwm sydd i ddod.

Pwyso ar holl aelodau’r Bwrdd ynghylch yr adduned ar sut i wir ddatblygu’r storïau newyddion da.

Nodwyd bod angen cyfathrebu gwell rhwng Cyngor Sgiliau’r Sector a busnesau.

Cafwyd hanes diweddaraf Menter y Cymoedd gan **BDL**. Nodwyd bod 94 o bobl newydd o’r Cymoedd wedi ymuno â’r fenter. Mae Met Caerdydd wedi bod yn datblygu gwybodaeth. Roedd yr Ysgol Haf yn llwyddiant ysgubol.

	<p>Teimlwyd bod Tuck In wedi gwneud gwaith ardderchog yn yr ardal a dylid estyn y gwaith ledled Cymru.</p>
<p>6.</p>	<p>Strwythur y Bwrdd</p> <p>Bu'r Bwrdd yn trafod strwythur a threfniadau llywodraethu ei gyfansoddiad a chytunwyd bod materion i'w datrys, fel nawdd diwydiant a'r cylch gorchwyl. <i>Gwnaed y sylwadau canlynol:</i></p> <p>Dywedodd NB iddi ymuno â'r Bwrdd ar y ddealltwriaeth y deuai'n annibynnol ar y Llywodraeth.</p> <p>Trafododd HT farn Ysgrifennydd y Cabinet ac roedd am gael argymhellion cyn gwneud rhagor o sylwadau. Heblaw am hynny, teimlai fod y Bwrdd yn gweithio'n dda.</p> <p>Roedd KP yn credu y gallai fod problemau amseru o ran Brexit ac annibyniaeth y Bwrdd. Trafodwyd Opsiwn 2 a nodwyd fod y Bwrdd eisoes yn gweithio gyda LIC.</p> <p>Roedd DL yn credu bod gan LIC ddarlun mwy na'r Bwrdd ac mae'n ddefnyddiol bod ganddo'r cysylltiadau hynny. Mae'r Bwrdd, fel bwrdd diwydiant, yn canolbwyntio'n bennaf ar ei faes ei hun. Cafwyd trafodaeth am y Clystyrau.</p> <p>Holodd DM am faterion amseru. Proses yw annibyniaeth y Bwrdd. Awgrymodd y dylid gofyn am estyniad o flwyddyn cyn penderfynu. Cytunodd DM y dylid adolygu'r cylch gorchwyl ac y dylai wasanaethu'r sector.</p> <p>Cynigion JW bod y Bwrdd a LIC yn dod yn gydberchenogion.</p> <p>Awgrymodd JF y dylai'r Bwrdd geisio cynrychioli'r sector yn well. Mae angen rhoi mwy o ffocws ar ddod yn rhan gyflawni o'r diwydiant ac annog mwy i ddod yn aelodau o glystyrau.</p> <p>Byddai'n well gan MS fod y Bwrdd yn dod yn annibynnol ar LIC.</p> <p>Nodwyd y dylai fod perthynas greadigol rhwng LIC a'r Bwrdd. Mae clystyrau wedi crybwyll y carent gyfrannu'n ariannol at rai elfennau.</p> <p>Mae'r Bwrdd wedi cytuno na fyddent yn penderfynu ar y mater hwn heddiw ac y dylid cadw pethau fel y maent am y tro.</p>
<p>7.</p>	<p>Cyflwyniad ar y Strategaeth Ddiodydd</p> <p>Cyflwynodd Mark Grant waith y Clwstwr Ddiodydd ar ddatblygu Strategaeth Ddiodydd. Yr amcan oedd clywed barn y Bwrdd am y strategaeth yr oeddynt wedi'i chomisiynu cyn rhoi cyflwyniad ami i'r clwstwr diodydd.</p>

<p>8.</p>	<p>‘Brexit a’n Tir’</p> <p>Nododd y Bwrdd y ffocws ar ‘nwyddau cyhoeddus’ a ‘gwasanaethau amgylcheddol’ ond teimlai nad oedd yn gymwys i drafod y manylion gan nad oedd ganddo’r arbenigedd. Fodd bynnag, roedd yr aelodau’n unfryd bod angen trywydd chwyldroadol o wahanol ar amaethyddiaeth gan fod dyddiau’r PAC yn dod i ben ac am fod angen i ffermydd roi mwy o sylw ar ddod yn fusnesau yn hytrach na dibynnu ar gymhorthdal. Teimlwyd bod cwestiynau’r ymgynghoriad yn rhy amwys ac nid oedd y papur yn esbonio’n fanwl beth fyddai goblygiadau’r cynigion ar fuddsoddi arian.</p> <p>Roedd y Bwrdd yn croesawu’r pwyslais mawr ar gydnerthedd economaidd. Mynegwyd pryderon na fyddai cwmnïau a ffermydd bach yn gallu cystadlu ar lefel fyd-eang a byddai pwysau’r farchnad o blaid ffermwyr mwy a mwy effeithiol yn arwain at ostwng safonau i ateb y galw am fwyd rhad. Dylai camau i wella cydnerthedd economaidd fod yn flaenoriaeth a dylent hefyd gynnal a gwella safonau cynhyrchu.</p> <p>Roedd y bwrdd yn awyddus bod y cydbwysedd cywir yn cael ei daro rhwng nwyddau cyhoeddus a chydnerthedd economaidd. Mae’n anodd gwybod gan nad ydym yn gwybod eto beth fydd effeithiau Brexit.</p> <p>Roedd y Bwrdd yn poeni nad oedd ymgynghoriadau tebyg wedi’u cyhoeddi ar gyfer y sector pysgota, cefnogaeth i’r sector preifat yn gyffredinol, a pholisi cymdeithasol. Mae angen i Lywodraeth Cymru ddod â’r rhain ynghyd fel bod ffocws clir ar ffyniant cenedlaethol a chydlyniant cymdeithasol.</p>
<p>9.</p>	<p>Strategaeth Arloesi</p> <p>Cyflwynwyd y strategaeth i’r Bwrdd gan MS. Roedd yn ailadrodd y drafodaeth a gafwyd am arloesi yn y cyfarfod diwethaf. Cafwyd trafodaeth am yr angen i wneud gwaith yn y maes y gellid ei gysylltu â ffrydiau gwaith eraill. Trafododd MS yr angen am astudiaethau achos i ddangos mantais bod yn ymarferol ac yn synhwyrol.</p> <p>Tynnwyd sylw’r Bwrdd at y ffaith ei bod yn anodd iawn cael y nawdd sydd ei angen i ddechrau cwmni. Gellid gwella’r llwybr at arloesedd a’i ddefnyddio’n well.</p> <p>Mae angen cryfhau’r cysylltiadau ag Arloesi Bwyd Cymru a’u defnyddio’n amlach.</p> <p>Dywedodd MS bod angen cefnogaeth arno i wybod beth i’w wneud.</p> <p><i>Sylwadau’r Bwrdd;</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Siaradodd AR am y gynhadledd gan ddweud ei bod yn bositif iawn. Roedd yn amlwg bod llawer o ansicrwydd ynghylch Brexit.
<p>10.</p>	<p>Y Diweddaraf am y Gweithdy Cynllunio ar gyfer Brexit</p>

	<p>Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd y câi'r Gweithdy Brexit nesaf ei gynnal ar 8 a 9 Tachwedd. Bydd y naill yn cael ei gynnal yn Wrecsam a'r llall yn Abertawe.</p> <p><i>Sylwadau'r Bwrdd;</i></p> <p>Roedd rhai'n poeni y byddai pethau'n newid. Roedd Katie'n credu y dylid anfon gwahoddiad p'run bynnag gyda nodyn y gallai gael ei ganslo os bydd pethau'n newid. Nid oes gan lawer o fusnesau gynllun lliniaru, felly gallai pecyn cymorth fodd yn ddefnyddiol.</p> <p>Mae cwsmeriaid domestig yn holi a yw'r gadwyn gyflenwi'n ddiogel. Ceir pryderon ynghylch deddfwriaeth Diogelwch Bwyd ar ôl Brexit h.y. a fydd gan y DU y ddeddfwriaeth a'r strwythurau i sicrhau bod y safonau Diogelwch Bwyd yn parhau.</p>
11.	<p>Y Diweddaraf am y Cynllun a'r Brand Cyfathrebu</p> <p>Cynllun Cyfathrebu</p> <p>Cyflwynodd Ro Roberts (RR) y Cynllun Cyfathrebu i'r Bwrdd. Roedd llawer o eitemau ynddo y carai RR i'r bwrdd eu hystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • A allai'r Bwrdd gysylltu ag RR i roi manylion y cyfryngau iddo. Trafodwyd pa aelodau o'r bwrdd oedd wedi cael hyfforddiant y cyfryngau. • Dywedwyd bod angen i holl aelodau'r bwrdd fod yn rhan o hyn. Dywedwyd hefyd nad yw'n arfer i'r Bwrdd gynnig sylw ar bolisi LIC. • Carai RR lunio darlun mwy o'r Bwrdd, a gwneud y gorau o gryfderau pob aelod. <p>Roedd y drafodaeth yn seiliedig ar syniadau a ffyrdd o fynd â'r Cynllun Cyfathrebu yn ei flaen.</p> <p><i>Sylwadau'r Bwrdd;</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd EJ yn cytuno bod angen gwneud y Bwrdd yn fwy dynol, er mwyn ei gwneud hi'n haws i'r diwydiant gysylltu ag e'. • Tynnodd KP sylw'r Bwrdd at y gynhadledd ar lysiau y gallai'r Bwrdd fod yn rhan ohoni gan y byddai'n gyhoeddusrwydd da. <p>Y Diweddaraf am y Brand a'i Werthoedd</p> <p>Cytunwyd nad oedd y cyflwyniad yn un gwych. Nid oedd ffocws, ac ni chafwyd fawr o wybodaeth. Nodwyd bod gennym frand eisoes, gyda deddfwriaeth fel y ddeddf llesiant a deddf cenedlaethau'r dyfodol, yn sail iddo. Mae gwerthoedd y brand yn addas i gynlluniau generig, rhaid penderfynu a ydynt yr un mor addas i'r diwydiant neu lywodraeth.</p> <p>Casgliad</p> <p>Mae gan werthoedd brand daith hir. Ceir pynciau fel newid hinsawdd ar ffermydd, yr agenda gymdeithasol a'r gymuned a fydd yn effeithio ar werthoedd brand cynaliadwy.</p>

	<p>Mae LIC wedi gwneud cais i gronfa bontio'r UE. Diben y gronfa yw helpu materion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â Brexit. Ceir estyniad hefyd o £4 miliwn ar gyfer rhaglen waith fawr.</p> <p><i>Sylwadau'r Bwrdd;</i></p> <p>Dywedodd AR mai achrediad a gwerthoedd brand yw'r sylfaen. Atodiad yw popeth arall. Perchenogion y brand yw Croeso Cymru.</p> <p>Y nod o ran cwblhau'r gwaith ar werthoedd y brand yw bod popeth yn barod erbyn Sioe Fawr 2019. Rhaid wrth frand cytbwys.</p> <p>Cam Gweithredu: Awgrymodd AR fod angen edrych eto ar y gwaith ar werthoedd y brand gan Nick Miller ac mae angen i DIM drafod Brexit ag AR.</p>
<p>12.</p>	<p>Unrhyw Fater Arall</p> <p>Cytunwyd mai enw cyfrif trydar FDWIB fydd '#FDWIB'.</p> <p>Cytunwyd cynnal y cyfarfod nesaf yn Tiny Rebel. Bydd digwyddiad gyda'r nos yno hefyd a threfnir sesiwn 'speed dating' fel o'r blaen.</p> <p>Cytunwyd y dylai RR gael dod i gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol, tra phery ei gcontract.</p>